YR ATODLEN

Erthygl 3

Materion y mae'n rhaid rhoi gwybodaeth amdanynt i denantiaid diogel

1. Amlinelliad o effaith darpariaethau Rhan 5 o'r Ddeddf o ran—

(a) yr amgylchiadau pan ellir a phan na ellir arfer yr hawl i brynu;

(b) yr eithriadau i'r hawl i brynu a nodir yn Atodlen 5 i'r Ddeddf;

(c) y weithdrefn ar gyfer hawlio'r arfer hawl i brynu;

(ch) y dull o gyfrifo'r pris sy'n daladwy am y tŷ annedd gan denant sy'n arfer yr hawl i brynu; a

(d) y gweithdrefnau hysbysu oedi ar gyfer landlordiaid a thenantiaid a nodir yn adran 153A a 153B a hysbysiadau cwblhau'r landlord o dan adran 140 a 141 o'r Ddeddf.

2.—(1) Y ffaith ei bod yn debygol y tynnir costau cychwynnol gan denant diogel sy'n arfer ei hawl i brynu.

(2) Mae'r cyfeiriad ym mharagraff (1) at gostau cychwynnol yn cynnwys costau o ran—

(a) y doll stampiau;

(b) ffioedd cyfreithiol ac arolygu;

(c) ffioedd prisio a chostau sy'n gysylltiedig â chymryd morgais.

3.—(1) Y ffaith ei bod yn debygol y bydd tenant diogel yn gorfod gwneud taliadau rheolaidd fel perchennog tŷ annedd.

(2) Mae'r cyfeiriad ym mharagraff (1) at daliadau rheolaidd yn cynnwys taliadau o ran—

(a) unrhyw forgais neu arwystl ar y tŷ annedd;

(b) yswiriant adeiladau, yswiriant bywyd, ac yswiriant diogelu taliadau morgais;

(c) y dreth gyngor;

(ch) gwasanaethau dŵr, carthffosiaeth, nwy, trydan, neu gyfleustodau eraill.

4. Risg adfeddiannu'r tŷ annedd os na wneir y taliadau morgais yn rheolaidd.

5. Er mwyn cynnal yr eiddo mewn cyflwr da, y ffaith ei bod yn debygol y bydd yn rhaid i berchennog tŷ annedd dynnu gwariant a allai gynnwys talu taliadau gwasanaeth (blynyddol yn ogystal ag o ran gwaith mawr) lle bo'n briodol.